



Adroddiad Blynyddol
y
Bwrdd Monitro Annibynnol
yng
Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr
Ifanc EM y Parc, Pen-y-Bont ar Ogwr

Adroddiad Blynyddol Mawrth 2016-Chwefror 2017

Cyhoeddwyd
Gorffennaf 2017



Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

CRYNODEB O'R CYNNWYS

Adran 1	Crynodeb Gweithredol
Adran 2	Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol
Adran 3	Disgrifiad o'r Carchar
Adran 4	Y meysydd y mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i adrodd amdanynt:
Adran 4A	
Adran 4B	Yr Uned Ieuencid
Adran 4C	Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Adran 4D	Addysg, Dysgu a Sgiliau
Adran 4E	Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl
Adran 4F	Gweithredu Bwriadol
Adran 4G	Ailsefydlu
Adran 4H	Carchariad mwy Diogel
Adran 4I	Gwahanu, Gofalu a Gwahanu, Goruchwyliaeth Agos Gwasanaethau Preswyl
Adran 5	Meysydd Eraill
Adran 6	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Bwrdd yn pryderu ynghylch y nifer gynyddol o garcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl sydd felly'n cynyddu'r galw am adnodd sy'n gyfyngedig.

Mae'r Bwrdd yn bryderus hefyd ynghylch y cynnydd mewn digwyddiadau treisgar yn y Parc, y mae canran anghybwys o uchel ohonynt yn digwydd yn yr Uned Ieuencid.

Fodd bynnag, menter diweddar a gyflwynwyd yw Mentoriaid y Grŵp Ymyrraeth Sylfaenol a Chynrychiolwyr yr Adain i Ostwng Trais, ac mae'r Tîm Gostwng Trais yn ymroddedig yn ei ymdrechion i herio a gostwng trais.

Anfonir Pobl Ifainc i'r carchar dim ond os nad oes opsiwn arall ac, o ganlyniad i hynny, gall y rheiny yn y carchar fod yn hynod danllyd ac aflonyddgar gan greu mwy o heriau i'r staff.

Yn debyg i fyrddau mewn carchardai eraill, mae'r Bwrdd yn pryderu am y lefel o gamdrin sylweddau sy'n digwydd yn y carchar, yn arbennig y cyfansoddion "sbeis"..

Mae'r Bwrdd wedi cyfeirio eto ac y broblem gyda charcharorion yn honni nad ydynt yn gwybod pwy yw eu swyddogion personol. Er bod rhai mesurau ar waith, mae angen gwneud mwy o ymdrech i ymdrin â'r canfyddiad yma.

Cafwyd nifer o geisiadau yn ymwneud ag eiddo sydd wedi mynd ar goll, yn enwedig lle mae carcharorion yn cael eu symud i'r uned arwahanu ac mae oedi wrth glirio eu eiddo allan o'u celloedd blaenorol. Mae'r ffaith nad oes llawer o le i'r eiddo ar y cerbydau sy'n cael eu defnyddio i drosglwyddo o un carchar i'r llall wedi achosi problemau hefyd gydag eiddo'n mynd ar goll ar drosglwyddiadau o'r fath.

Mae'r Bwrdd wedi penodi aelodau newydd ond mae wedi colli aelodau a fyddai mae'n debyg wedi bod yn aelodau da oherwydd yr amser mae'n ei gymryd o gychwyniad y recriwtiad i'r penodiad ffurfiol. Hoffem weld y gweithdrefnau recriwtio'n cael eu symleiddio gan ddirprwyo mwy i fyrddau unigol.

Bu'r Parc yn llwyddiannus eto yn y Gwobrau Koestler blynyddol. Mae'r gwobrau celf yma'n annog doniau'r enillwyr ac yn rhoi hwb enfawr i'w hunan-barch. Canmoliaeth hefyd i lwyddiant cynyddol yr Adran Addysg.

Mae'n ymddangos bod penodi Swyddog Cyswllt y Claf a Hyrwyddwyr Iechyd yr Adain yn annog carcharorion i gymryd y cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

Mae'r gweithgareddau arloesol yn Uned y Teulu'n parhau i osod esiampl i garchardai eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Enillodd Invisible Walls Wales wobwr elusen y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol ac rydym yn llongyfrach y carchar ar y llwyddiant yma.

Bu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi'n arolygu'r carchar ym mis Ionawr 2016. Mae'r adroddiad ffurfiol wedi ei dderbyn. Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiad wedi derbyn sylw.

Cafodd cyflwyniad y gwaharddiad ysmegu ei reoli'n dda yn y Parc. Mae'r Bwrdd yn gwybod am achosion lle mae carcharorion wedi manteisio ar y cyfle i roi'r gorau i ysmegu ac maent yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy iach. Ond mae'r Bwrdd yn ymwybodol hefyd bod tybaco ac eitemau eraill yn dal i fynd i mewn i'r carchar a bod ysmegwyr yn cael eu hecsbloetio gan gyflenwyr y contraband yma.

Er nad oes unrhyw un wedi gwneud dadansoddiad, mae'r Bwrdd yn pryderu y gallai'r gwaharddiad ar ysmegu fod yn ffactor yn y lefel gynyddol o drais a hunan-niweidio.

Mae'r Bwrdd yn bryderus am y defnydd a wneir o ddronau i fynd â chontraband i'r carchar, weithiau'n uniongyrchol at ffenestri celloedd y carcharorion.

Mae'r Bwrdd wedi nodi bod mwy o staff wedi cychwyn a gorffen yn ystod y flwyddyn ac, yn arbennig, bod nifer o swyddogion profiadol wedi ymadael. Mae hyn, ynghyd â chynnydd yn y lefelau salwch, wedi dod â newidiadau i'r trefnau, gyda chynnydd yn yr amser y mae carcharorion yn ei dreulio yn eu celloedd mewn rota ar yr adenydd.

Er eu bod yn cydnabod mor anodd yw trefnu cludiant mewn hinsawdd ariannol tynn, mae'r Bwrdd yn dal i bryderu fod pobl ifanc sydd wedi eu cadw yn y ddalfa yn y Parc, yn gorfod aros am gyfnod hir ar ôl eu hymddangosiad yn y llys cyn cael eu dychwelyd i'r carchar.

Argraff gyffredinol y Bwrdd yw bod y Parc yn cael ei reoli'n dda, bod diogelwch y carcharorion o'r pwysigrwydd mwyaf a bod darpariaeth y gweithgareddau gyda nod a phwrpas yn dda iawn ar y cyfan.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

2 RÔL STATUDOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gofyn fod pob carchar a chanolfan IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau'r gymuned lle mae'r carchar neu'r ganolfan yn sefyll.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb penodol i:

- (1) ei fodloni ei hun fod y rheiny sydd wedi eu dal o fewn ei garchar yn derbyn triniaeth deg a thrugarog a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi at gael eu rhyddhau'n amrywiol a digonol.
- (2) rhoi gwybod yn brydlon am unrhyw bryder sydd ganddo i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n ei farnu'n briodol.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â pha mor llwyddiannus yw'r carchar o ran cyrraedd y safonau a chyflawni'r gofynion sydd ganddo a pha effaith mae'r rhain yn ei chael ar y rhai sydd wedi'u carcharu yno.**

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i wneud y dyletswyddau yma'n effeithiol, mae hawl gan ei aelodau weld pob carcharor a phob rhan o'r carchar ac hefyd gofnodion y carchar.

3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR / SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC

Mae Carchar a Sefydliad Troseddwy Ifanc Ei Mawrhydi, y Parc, yn sefydliad lleol categori B ac yn Sefydliad Troseddwy Ifanc sydd ag Uned Ieuenctid fechan ac mae'r canlynol wedi eu cytuno:-

- i) Llety Arferol Ardystiedig gwaelodol i 1559 o oedolion ac oedolion ifanc o Fawrth 1^{af} 2016 (1557 hyd y dyddiad hwnnw).
- ii) capasiti gweithredol cyfredol o 1753 (1723 y llynedd) yn cynnwys 64 (64) o bobl ifanc.

Agorodd Carchar a Sefydliad Troseddwy Ifanc EM y Parc ar 17^{eg} Tachwedd 1997, a dyma'r unig garchar a redir yn breifat yng Nghymru. Mae'n cael ei reoli gan Wasanaethau Cyfiawnder G4S ar ran y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS). Mae llawer o staff y carchar wedi eu penodi o'r ardal leol.

Mae'r carchar wedi'i leoli ar gyrrion Pen-y-Bont ar Ogwr ond mae'n hawdd ei gyrraedd mewn car neu drên.

Yn gyffredin gyda'r holl sefydliadau ar gontract, mae Rheolwr gan Garchar a Sefydliad Troseddwy Ifanc EM y Parc. Mae'r Rheolwr yn rheoli'r contract 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac mae'n uniongyrchol gyfrifol i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwy (Cymru).

Mae'r Bloc Coed newydd a agorwyd ym mis Ionawr 2015 i dderbyn carcharorion bregus, wedi bod yn gwbl weithredol ers dwy flynedd. Gall y bloc roi lle i 387 o garcharorion ond y capasiti gweithredol yw 370.

Darperir gofal iechyd gan Iechyd Cyfiawnder, Gwasanaethau Iechyd a Chymorth Plismona G4S.

Darperir addysg gan Garchar / Sefydliad Troseddwy Ifanc EM y Parc, G4S

Darperir Gwasanaethau Llyfrgell gan Greenwich Leisure Limited

Mae'r Gwasanaethau Ailsefydlu mewn perthynas â llety, cyflogaeth a chymorth ar gontract i Working Links. Am fod gwneuthuriad y boblogaeth yn gymhleth, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gyrfa Cymru'n chwarae rhan mewn darparu gwasanaethau ailsefydlu.

Mae'r Man Derbyn Ymwelwyr wedi'i staffio gan Barnado's erbyn hyn. Mae'r Carchar wedi sefydlu cysylltiadau gyda nifer o sefydliadau a chwmnïau sy'n darparu cyrsiau hyfforddi a chyfleoedd i gael swydd.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

4A YR UNED IEUENCTID (dynion ifanc 15-17 oed)

Yr uned ieuentid yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc yw'r unig Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) i blant a phobl ianc yng Nghymru. Gall yr Uned Ieuentid ddarparu lle i hyd at 64 o bobl ifanc ar remand ac wedi eu dedfrydu ac mae'n cynnwys dwy adain. Mae'r Bwrdd yn ymweld â'r uned yn rheolaidd ac yn monitro gwahaniadau.

Mewn blynyddoedd diweddar, yr opsiwn olaf un yw anfon pobl ifanc i'r carchar. O ganlyniad, mae'r rheiny yn yr Uned Ieuentid yn tueddu bod yn fwy treisgar a thanllyd ac mae'r staff yn wynebu mwy o heriau. Mae'r nifer anghytwys o uchel ddigwyddiadau yn yr uned yn tueddu ystumio'r ystadedegau cyffredinol ar gyfer y Parc.

Mae'r Bwrdd yn pryderu am y cynnydd yn yr ymosodiadau a gofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig yr ymosodiadau ar staff.

Er gwaethaf yr anawsterau yma, mae'n ymddangos bod gan y staff berthynas dda gyda'r bobl ifanc ac mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r ymdrechion a wneir i helpu hyd yn oed y mwyaf anghymodlon o'r bobl ifanc.

Yn y manau gweithgareddau a'r coridorau allanol, ac ar waliau'r uned, gwelir rhywfaint o'r gwaith celf a gynhyrchwyd gan y Bobl Ifanc. Mae glendid yr unedau'n weddol dda ar y cyfan ond mae problemau wedi codi gyda'r manau o amgylch yr unedau cawodydd. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r ymdrechion a wnaed i wella hylendid yn y manau yma ac ni chyfeiriodd y Bobl Ifanc at unrhyw broblemau yn y cyswllt yma.

Ar y cyfan mae'r addysg yn foddhal. Mae'r carchar wedi cefnogi staff i'w helpu i bennu sut y gallent gynnwys datblygiad sgiliau llythrennedd mewn cynlluniau gwersi. Mae'r Parc wedi creu cysylltiadau denfyddiol gyda Choleg Pen-y-Bont ar Ogwr a thrwy'r rhain mae athrawon yn cael eu cefnogi i gynnwys llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Mae Pobl Ifanc sy'n trosglwyddo i'r sector oedolion yn derbyn cyngor da gan athrawon ynglŷn â chyfleoedd i symud ymlaen. Mae gwersi sgiliau cyflogaeth a gyflwynwyd yn

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

ddiweddar yn helpu dysgwyr i gynllunio ar gyfer ailsefydlu pan fyddent yn gadael y carchar.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn monitro gwersi dosbarth ac er bod nifer y myfyrwyr yn fach, o ystyried yr ystodau gallu ac oedran, a'r heriau o ran ymddygiad, dydy hi ddim yn syndod nad yw'r holl fyfyrwyr yn ymgysylltu â'r gwersi ar brydiau. Er bod ein presenoldeb wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar hyn o bosib, gwelsom nad oedd ymddygiad gwael y myfyrwyr yn derbyn sylw digonol gan yr athrawon bob amser. Roedd rhai o'r gwersi'n dda iawn ac roedd y myfyrwyr yn eu mwynhau.

Mae'r ddarpariaeth Gofal Iechyd ar yr unedau'n cynnwys nyrsys Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ddelio gyda phobl ifanc.

Daeth y Bwrdd Gwella Carchariad Ieuenctid i ymweld â'r Parc ym mis Rhagfyr 2016 ac mae wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar am yr ymweliad hwnnw.

Mae Estyn wedi ymweld â'r carchar hefyd yn rhan o arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'r ddarpariaeth i bobl ifanc yn y Parc.

Er ein bod yn cydnabod mor anodd yw trefnu cludiant mewn hinsawdd ariannol tynn, mae'r Bwrdd yn dal i bryderu am y broblem barhaus fod pobl ifanc, sy'n cael eu dal yn y ddalfa yn y Parc, yn gorfod aros amser maith ar ôl eu hachos llys cyn cael eu dychwelyd i'r carchar.

4B CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIAD

Cynhelir cyfarfodydd cydraddoldeb yn fisol a chânt eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr. Mae aelod dynodedig o'r Bwrdd yn mynd i'r cyfarfodydd yma ac mae nifer dda o staff o'r amrywiol adrannau ar draws y carchar yn mynd hefyd. Mae agenda manwl gyda'r manylion diweddaraf am Ffurflenni Adrodd am Ddigwyddiadau o Wahaniaethu (DIRF), Carcharorion Cenedlaethol o Dramor (FNPs), yr iaith Gymraeg, Hil, Ffydd, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil a Charcharorion Hŷn

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

Mae tîm Cydraddoldeb gyda Rheolwr, Swyddog Cydraddoldeb a Chydlynnydd Cenedlaethol Tramor sy'n cael eu goruchwylio gan Reolwr Uwch dros Garchariad mwy Diogel. Mae'r tîm yn cysylltu gyda'r holl garcharorion newydd yn rhan o'r broses ymsefydlu. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod mwy o Gynrychiolwyr Cydraddoldeb wedi cael eu penodi ac mae'n hapus bod rhagor o benodi'n digwydd yn barhaus.

Mae'r holl staff newydd yn cael eu hyfforddi mewn Cydraddoldeb yn ystod eu cyfnod ymgartrefu a chynhelir rhaglenni hyfforddi parhaus yn fisol i sicrhau bod y staff yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn y maes yma. Mae'r cyrsiau "Cyflwyniad i'r Gymraeg" i staff wedi cael derbyniad da ac mae mwy o aelodau'r staff wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan yn y cwrs.

Mae'r Tîm Caplaniaeth wedi bod yn tyfu ac mae'r gwaith i benodi Bwdhyddion, Mormoniaid, Crynwyr a Chaplaniaid Ysbrydegwyr yn cael ei brosesu ar hyn o bryd. Mae ymdrechion hefyd i ganfod trydydd Caplan Mwslimaidd ynghyd â Chaplan Rastaffariad a Hindw.

Mae gweithgareddau a digwyddiadau'n parhau i gynnwys gwahanol ddigwyddiadau crefyddol drwy gydol y flwyddyn ynghyd â Mis Hanes y Duon, Mis Hanes y Teithwyr, Sipsi, Roma, Mis Hanes y Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a'r Wythnos Rhyng-ffydd. Mae'r Clwb Ffilmiau'n parhau ac mae hwn yn cael i ymestyn i'r Uned Ieuencid. Bu 36 o chwaraewyr yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth bêl-droed i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac mae nifer y chwaraewyr sy'n hyfforddi gyda Thîm Pêl-droed Teigrod y Parc wedi dyblu erbyn hyn. Mae grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi eu sefydlu ac mae mwy na 30 o garcharorion yn mynd i rai o'r grwpiau yma.

Cynhelir grwpiau ffocws misol gyda grwpiau lleiafrifol yn cynnwys y gymuned Teithwyr a'r gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ynghyd â grwpiau cynhwysiad cymunedol. Mae'n bleser gan y Bwrdd nodi bod cynrychiolwyr Cydraddoldeb ac aelodau o'r staff wedi cael eu hyfforddi hefyd yn yr effaith y mae Dementia'n ei gael, sy'n adlewyrchu tyfiant yn y boblogaeth hŷn, y ffaith fod y cyflwr yma'n digwydd yn amlach a'r angen am fwy o ddealltwriaeth gan staff a charcharorion. Rhagor o fentrau, y gall y Bwrdd adrodd amdanynt, yw'r cynlluniau i gyflwyno partneriaid cymheiriol sy'n oedolion yn yr YPU, yn enwedig i'r gymuned teithwyr. Mae grŵp ysgrifennu i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn dod yn ei flaen yn dda a'r bwriad yw cyflwyno gweithdai sail Drama yn y dyfodol agos.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

4C ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

G4S sy'n darparu'r gwasanaethau addysg o fewn y Parc.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod yr adran Dysgu a Sgiliau'n awyddus iawn i sicrhau ei bod yn darparu ar gyfer ei dysgwyr i gyd beth bynnag fo'u gallu neu sgil.

Llwyddodd mwy na 400 o ddysgwyr i gyflawni amrywiaeth eang o gymwysterau o ddyfarniadau ABC i fodiwlau'r Brifysgol Agored, sef cynnydd o 40% ers y llynedd.

Estynnodd yr adran Addysg Bellach wahoddiad i golegau lleol a darparwyr hyfforddiant i fynd i Ddiwrnod Agored y Parc i annog, cymell ac ysbrydoli troseddwyr i wneud yn fawr o'u cyfleoedd addysgol yn y carchar a'u helpu i ennill cymwysterau a allai eu help i gael swydd wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.

Mae gan y Parc llyfrgell fodern gyda stoc da o lyfrau amrywiol yn cynnwys rhai ffeithiol, ffuglenni, llyfrau gwybodaeth a llawlyfrau cyfarwyddo i helpu troseddwyr i gyflawni eu targedau addysgol. Gwneir defnydd da o'r llyfrgell ac mae'r staff yn sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell i'r bloc Coed yn effeithiol.

Mae'n bleser gan y Bwrdd weld bod yr adran Addysg wedi bod yn datblygu mwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol megis gweithgareddau domestig ac mae'r rhain yn boblogaidd.

Mae'r adran Gelf yn parhau'n adran weithgar iawn ac mae'r Gystadleuaeth Koestler wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto gyda'r Parc yn ennill nifer o ddyfarniadau eto.

Bu Estyn yn arolygu'r ddarpariaeth Addysg yn y Parc ym mis Rhagfyr 2016 ac mae'r adroddiad drafft wedi cyrraedd.

Mae aleodau'r Bwrdd wedi gweld bod y dosbarthiadau a ddarperir yn Nhŷ Dysgu, y ganolfan addysg sy'n gwasanaethu'r bloc Coed, wedi bod yn hynod boblogaidd ac mae'n ymddangos bod diddordeb cyffredinol ymysg carcharorion mewn gwella eu haddysg.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

4D GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

Darperir gofal iechyd sylfaenol yn y Parc gan Iechyd Cyfiawnder-Justice Health, Gwasanaethau Iechyd a Chefnogaeth Plismona G4S gyda gofal eilaidd wedi'i ddarparu gan yr ysbyty aciwt lleol: mae hyn yn cynnwys gwasanaethau Mewngymorth Iechyd Meddwl.

Gwneir y ceisiadau am apwyntiadau ar hyn o bryd drwy'r consolau CMS ar yr adennydd yn bennaf. Mae problem barhaus gyda'r cyfraddau uchel o bobl 'heb fynychu' (DNAs) ar draws yr holl wasanaethau; meddygol, deintyddol, optegol ac ati. Un o'r prif resymau a roddir am hyn yw nad oes digon o staff y carchar ar gael i dywys carcharorion i'r ganolfan feddygol ac yn ôl gan olygu bod rhai 'heb fynychu' (DNA) a bod y carcharorion sydd yn mynychu yn gorfod aros am amser hir. Ar hyn o bryd, mae staff sy'n tywys y carcharorion yn dod o adenydd preswyl y carchar ond mae'r Bwrdd yn ymwybodol fod y Carchar yn bwriadu gosod staff tywys mewn adain gerllaw Gofal Iechyd a fydd yn creu system fwy effeithlon a hyblyg. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol hefyd fod carcharorion sy'n cansloapwyntiadau yn gwneud hynny'n aml iawn yn rhy agos at amser yr apwyntiad i ganiatáu i'r amser dynodedig hwnnw gael ei ddefnyddio gan rywun arall, ond mae Hyrwyddwyr Gofal Iechyd yr Adain yn cael eu defnyddio i geisio ymdrin â hynny.

Yn gyffredin gyda charchardai eraill, mae sylweddau seicoweithredol (NS) yn arbennig "sbeis" yn cael effaith sylweddol ar iechyd y carcharorion a'r galwadau ar y ddarpariaeth gofal iechyd. Er bod yr adran gofal iechyd wedi gallu cyrraedd safonau uchel yn ei rheolaeth ar glefydau cronig yn 2015-2016, mae'n achos pryder gan y Bwrdd glywed bod y galw uchel presennol am ofal aciwt wedi golygu nad yw'r targedau wedi eu cyrraedd eleni.

Mae'r carchar yn y gwneud gwaith ar y defnydd o opiadau. Yn dilyn sgwrs gyda'r ysbyty aciwt lleol mae'n rhaid i bresgripsiwn am gyffuriau o werth uchel, yn cynnwys opiadau (e.e. tramadol), ddod ar gyngor Meddyg Ymgynghorol. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol fod y meddyg ymgynghorol Damwain ac Argyfwng yn cydweithredu â'r ymdrech i leihau'r presgripsiynau am opiadau ac, o ganlyniad, mae gostyngiad yn yr ymweliadau brys gan garcharorion i'r ysbyty aciwt.

Amlygwyd yn adroddiad y llynedd fod disgwyliadau carcharorion am feddyginaeth pan maent yn dod i mewn i'r carchar i ddechrau yn anghyson gyda'r canllawiau NICE sy'n cael eu gweithredu yn y Parc. Mae carchardai yn Ne Cymru'n gweithio ar bolisi presgripsiynu diogel cyffredin i helpu trosglwyddiadau esmwyth rhwng carchardai.

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gofal yng Nghymru. Gall

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

y Bwrdd adrodd fod y Parc wedi ymateb i hyn drwy fod â staff ymroddedig wedi eu seilio mewn gofal iechyd sy'n trefnu asesiad cychwynnol o weithgareddau byw pob dydd i garcharorion gyda phwyslais ar atal damweiniau.

Mae mentrau newydd a galw cynyddol ar wasanaethau o ganlyniad i ddefnyddio sbeis oll yn cyfrannu at y galwadau ar staff gofal iechyd. Mae'r lefelau staffio wedi gwella'n ddiweddar ond mae penodi'n parhau'n anodd.

4E GWEITHGAREDDAU GYDA NOD A PHWRPAS

Yn 2016/17 mae'r Bwrdd wedi gweld gweithdai galwedigaethol a diwydiannau cyfredol yn cael eu hatgyfnerthu gyda'r holl weithgareddau a gynlluniwyd yn gwbl weithredol ac yn cyflogi hyd at 500 o garcharorion mewn cymysgedd o safleoedd llawn amser a rhan amser. Mae'r meysydd i gyd yn dal i ddarparu ystod o gymwysterau achrededig o lefel mynediad hyd at lefel 2.

Yn ogystal â'r gweithgareddau a ddarperir yn "Y Ganolfan" sy'n gwasanaethau'r prif garchar, mae "Tŷ Dysgu" yn yr Uned Coed wedi bod yn cynnig amrywiaeth cynyddol o weithgareddau i Garcharorion Bregus

Mae'r Ganolfan Anifeiliaid wedi symud o'r prif garchar i'r Bloc Coed ac mae hyn wedi rhoi gwell mynediad i garcharorion bregus at wahanol opsiynau cyflogaeth. Datblygiad arall yw bod carcharorion bregus yn gweithio yn y storfeydd allanol a'r storfeydd cegin erbyn hyn mewn safleoedd dibynadwy lefel 4.

Llwyddodd yr hyfforddwr BICS sy'n gweithio yn y Bloc Coed i ennill gwobr genedlaethol am ragoriaeth yn 2016 i gydnabod y ffordd wahanol y mae'r cwrs yn cael ei ddarparu ar y Bloc hwnnw. Am fod y lle i wneud gweithgareddau'n gyfyngedig, defnyddir yr unedau a'r landins fel manau hyfforddi yn lle'r gweithdai mwy traddodiadol.

Mae'r "Sied Fwyd", sydd â chontract i baratoi prydau i'w cymryd i'r bobl sy'n gaeth i'w cartrefi ym Mhen-y-Bont ar Ogwr a manau eraill, yn parhau i ddatblygu. Mae hwn yn boblogaidd iawn gyda'r carcharorion ac nid oes prinder ymgeiswyr brwdfrydig i weithio yn y maes yma.

Mae Hyfforddiant Galwedigaethol wedi cyflogi hyfforddwr newydd i weithio gyda rhai o'r carcharorion sydd ag anawsterau dysgu ac anabledau i'w helpu i gael gafael ar waith cyflogedig mewn hyfforddiant galwedigaethol ac yn y gweithdai diwydiannol. Er bod hon yn rôl sy'n datblygu ac mai megis cychwyn mae hi, mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod carcharorion wedi ymateb yn dda i'r fenter hon ac y cafwyd rhai canlyniadau anogol hyd yn hyn.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

Mae'r tîm garddwriaeth yn gofalu'n dda am y tir i ddarparu amgylchedd braf ac maent wedi ennill dyfarniad am greu mannau sy'n croesawu bywyd gwyllt.

Mae'r carcharorion a gyflogir fel glanhawyr yn cynnal safon dda o lendid ar y cyfan drwy'r carchar cyfan. Mae'r peintwyr hefyd yn cynnal addurniad y carchar i safon dda.

Mae sbwriel yn gallu bod yn broblem mewn rhai mannau ond fel arfer mae'r gwaith clirio'n cael ei wneud yn brydlon.

Bwriad penodi Hyrwyddwyr Iechyd ar yr adenydd yw annog carcharorion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles a chreu cysylltiad gyda Swyddog Cyswllt y Claf.

Mae Mentoriaid y Grŵp Ymyrraeth Sylfaenol a'r Cynrychiolwyr Gostwng Trais wedi eu penodi a'u hyfforddi gan y Tîm Gostwng Trais i'w helpu gyda'u gwaith.

Dyfarnwyd lefel 4 i Weithgareddau'r Carcharorion yn yr Arolwg gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ym mis Ionawr 2016.

Mae'r Bwrdd wedi nodi'r gwelliant mewn darparu gweithgareddau ag iddynt nod a phwrpas eleni gyda rhyw 77% o'r carcharorion ar gyfartaledd yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

4F AILSEFYDLIAD

Mae gan bob carcharor gynllun dedfryd unigol sy'n cynnwys cyrsiau wedi'u bwriadu i ostwng y risg o ail droseddu. Mae'r Parc yn darparu rhai o'r cyrsiau hyn megis

TSP - Sgiliau Meddwl

BSR - Adeiladu Sgiliau i Wella

BBR - Adeiladu Gwell Perthnasoedd

RESOLVE - Ymdrin ag Ymddygaidd Treisgar

Fodd bynnag, mae'r gwaith o gynllunio rhaglenni ailsefydlu wedi'i roi ar gontract i Gwmnïau Ailsefydlu Cymunedol o dan ymbarél Working Links. Mae'r cwmnïau yma'n gweithio gyda charcharorion i ddarparu cefnogaeth i ailsefydlu a darparu sesiynau ar gyllid, lle i fyw, budd-daliadau a dyled, sgiliau cyflogadwyedd, trais domestig a

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

chefnogaeth i weithwyr rhyw. Mae'r cwmnïau'n cael eu gwobrwyo am eu llwyddiant i ostwng ail droseddu. Mae'r trefniadau newydd wedi integreiddio'n dda yn y Parc ac mae cyswllt agos wedi'i sefydlu gyda Rheolwyr Troseddwy'r allanol er mwyn ceisio sicrhau bod cefnogaeth briodol yn ei lle ar gyfer carcharorion wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Mae Gyrfa Cymru'n cyfranogi yn y rhaglen ailsefydlu, gan roi cyngor a chymorth i garcharorion gyda chyfleoedd i gael gwaith cyflogedig.

Mae'r Parc, yn gyffredin gyda charchardai eraill sydd â throeddwy'r rhyw sydd â dedfrydau Amhenodol i Amddiffyn y Cyhoedd (IPP), wedi wynebu problemau lle mae carcharorion o'r fath yn cael eu dal mewn rhyw fath o "limbo" wedi iddynt gwblhau eu tymor tariff ac yn gwrthod cymryd rhan mewn rhaglenni triniaeth.

Mae'r Parc wedi sefydlu cysylltiadau da gyda chwmnïau ac asiantaethau cyngor am gyflogaeth, a gyda chwmnïau sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth. Mae mudiadau chwaraeon megis Badminton Cymru, Pêl Fasged Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Criced Cymru, wedi darparu cyrsiau i garcharorion sy'n rhoi'r cyfle iddynt ennill amrywiol gymwysterau mewn hyfforddi.

Mae gwaith y Parc gyda Phlant a Theuluoedd a'r prosiect Invisible Walls Wales yn parhau i gael ei ystyried yn fodel o ragoriaeth ac yn derbyn cydnabyddiaeth yn y byd cyfiawnder yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. **Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Parc am ei waith arloesol yn y maes yma.**

4G CHARCHARIAD MWY DIOGEL

Mae datganiadau sy'n cael eu harddangos yn amlwg drwy'r sefydliad cyfan ac ar amrywiaeth o ddogfenaeth oll yn cadarnhau'r bwriad yma 'Yn y Parc, mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel'.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol fod y datganiad yma'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o strwythurau rheoli a monitro, yn ogystal â rolau, rhaglenni a thimau ymroddedig, oll wedi'u hanelu at gyflawni'r nod yma. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y tîm Rheolwyr yn ystyried diogelwch yn flaenoriaeth uchel

Mae'r Cyfarwyddwr yn darparu gwybodaeth gymharol bob mis i gyfarfod y Bwrdd ar achosion o drais a hunan-niweidio a denfyddio grym, gan alluogi'r Bwrdd i drafod ac archwilio'r problemau hyn gyda'r Cyfarwyddwr neu Reolwr Uwch arall. Yn ogystal, mae

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

aelod o'r Bwrdd yn mynd i'r cyfarfodydd Carchariad Mwy Diogel rheolaidd lle mae'r materion hyn yn cael eu trafod a'u dadansoddi'n llawer mwy manwl gan reolwyr perthnasol, er mwyn adolygu a diwygio polisiau ac ystyried mentrau ac ymyriadau newydd.

Mae gan y Parc Uned Carchariad Mwy Diogel ymroddedig sy'n cynnwys 16 gwely. Ar y cyfan, mae hwn yn amgylchedd mwy tawel a digyffro i ofalu am anghenion rhai o'r carcharorion mwy bregus. Mae'n cael ei gefnogi gan Ofal Iechyd, sy'n cynnwys y tîm iechyd meddwl.

Mae'r Bwrdd yn canmol staff yr uned yma am eu hagweddau digyffro, gofalgwr ac ymroddedig.

Mae'r Tîm Gostwng Trais yn cynnwys pedwar aelod o staff sydd â'r rôl o weithio gyda charcharorion, yn unigol ac mewn grwpiau, y gwelir bod angen ymyriad effeithiol arnynt mewn perthynas â rheoli dicter ac ymwybyddiaeth o drais. Mae'r tîm wedi penodi a hyfforddi carcharorion ar yr holl adenydd preswyl i weithredu fel Cynrychiolwyr Gostwng Trais er mwyn helpu'r tîm gyda'i waith. Menter arall yw penodi Mentoriaid Grŵp Ymyriad Sylfaenol. Rôl y mentor yw gweithio gyda chyd-garcharorion, y mae eu hymddygiad yn eu rhoi mewn perygl o golli'r breintiau y mae wedi eu hennill drwy gymelliadau, i geisio eu hatal rhag cael eu rhoi ar y drefn Sylfaenol. Mae'r tîm yn adrodd i'r Cyfarfod Gostwng Trais wythnosol ac yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr holl ddigwyddiadau treisgar, digwyddiadau Sylweddau Seicoweithredol Newydd ac achosion o ganfod arfau, ffonau symudol ac alcohol wedi'i fragu'n anghyfreithlon. Mae'r Cyfarwyddwr yn mynd i'r cyfarfodydd hyn ynghyd â'r rheolwyr uwch, yn cynnwys staff diogelu, sy'n cynllunio strategaethau i geisio delio â'r problemau hyn. **Mae'r Bwrdd yn credu bod hyn yn dangos y gofal a'r sylw a roddir i'r materion yma gan reolwyr y carchar wrth geisio cynnal diogelwch yn y Parc.**

Mae'r Tîm Carchariad Mwy Diogel yn monitro'n rheolaidd y nifer o ddogfennau Asesiad, Gofal mewn Carchar a Gwaith Tîm (ACCT) sydd ar waith ac achosion o hunan-niweidio. Mae aelodau'r tîm yn adolygu sampl o'r dogfennau ACCT cyflawn, gydag adborth unigol. Pennir a datblygir gofynion hyfforddi pellach, er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth gynyddol a chadw cofnodion o safon. Mae dadansoddiad o achosion o hunan-niweidio wedi canfod bod cyfran sylweddol o'r rhain bob mis yn cynnwys yr un grŵp gweddol fach o bobl sy'n hunan-niweidio'n rheolaidd. Mae gan y Cydlynnydd Achosion Cymhleth y dasg o ganolbwyntio'n benodol ar y grŵp yma er mwyn sicrhau y cymerir pob cam gweithredu effeithiol i geisio gostwng yr ymddygiad yma.

Mewn partneriaeth â'r Samariaid, mae tîm galluog iawn o Wrandawyr yn y Parc sydd wedi dweud wrth aelodau'r Bwrdd am y gwerth a welant yn eu rôl. Ceir penodiadau

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

newydd i'r tîm yma'n rheolaidd ac maent yn cyfarfod bob mis gyda'u cydlynnydd Samariaid.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod carcharorion sy'n mynd i mewn i'r Parc yn derbyn sylw'n briodol gan y staff Derbyn a bod yr Adennydd Ymgartrefu'n rhoi'r cyfle i garcharorion ymgyfawryddo â threfnau'r carchar.

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad yma, cafwyd cyfanswm o naw marwolaeth yn y ddalfa. O'r rhain bu farw saith o ganlyniad i amrywiaeth o achosion naturiol, sy'n adlewyrchu'r boblogaeth sylweddol o bobl hŷn yn y carchar, ac roedd dau farwolaeth yn hunanachosedig. Hysbyswyd y Bwrdd am yr holl ddigwyddiadau yma ar unwaith ac ymgynghorwyd â'r Bwrdd mewn perthynas â rhai ohonynt gan yr ymchwilydd Troseddwr Csyon a Throseddwr Eraill â Blaenoriaeth (PPO). Mae'r Bwrdd yn gwybod bod rhaglen gefnogi i'r staff a'r carcharorion yn dilyn marwolaeth, bod cysylltiad â'r teulu sy'n cynnwys y caplaniaeth a bod dysgu o adroddiadau PPO yn cael ei ystyried a'i gymryd o ddifrif.

Mae'r Bwrdd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr, yn dechrau pryderu ynghylch yr oedi cynyddol a geir wrth sefydlu a chynnal Cwêst. Mae rhai'n dal heb ddigwydd fisoedd lawer ar ôl y marwolaeth.

Mae'r Bwrdd yn parhau'n fodlon bod Carchariad Mwy Diogel yn derbyn blaneoriaeth ac yn cael ei ystyried o ddifrif gan y Cyfarwyddwr, Rheolwyr a'r staff.

4H NEILLTUO, GOFALU A GWAHANU, GORUCHWYLIAETH AGOS

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

Yr enw ar y ddarpariaeth yma yw'r Uned Phoenix ac mae ei datganiad o genhadaeth i'w weld wedi'i arddangos yn amlwg ar yr adain:

'herio ymddygiad negyddol ac annog ymgysylltiad positif gyda'r nod o ail integreiddio carcharorion yn llwyddiannus i'r boblogaeth gyffredinol unwaith eto'

Yn gyffredin gyda gweddill y carchar, mae'n adain olau a modern. Mae'n cael ei chadw'n lân a threfnus ac mae'r waliau'n arddangos amrywiaeth o ddarluniau, dyfyniadau a gwybodaeth. Mae 24 cell ac mae dwy o'r rhain heb eu dodrefnu.

Mae aelodau'r Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i fod yn bresennol yn adolygiadau'r carcharorion sy'n cael eu dal yn Phoenix ac ni chafwyd unrhyw reswm i beidio llofnodi'r ffurflen sy'n dangos boddhad gyda'r trefniadau.

Gall y Bwrdd gadarnhau bod y carcharor yn dod i'r adolygiadau bron bob tro, a bod cynrychiolydd o Ofal Iechyd yno hefyd fel arfer. Mewn adolygiadau rhoddir ystyriaeth weithredol i gynllunio ymlaen, gan gynnwys adrannau eraill yn aml iawn megis addysg neu ostwng trais, i sicrhau bod modd dychwelyd carcharor, lle bo'n briodol i'w leoliad arferol gynted ag y bob modd.

Lle mae Dyfarniad yn penderfynu cadw'r carcharor yn ei gell, mae hyn yn digwydd yn yr Uned Phoenix bob amser, a byth ar yr adain breswyl. Nid yw'r mwyafrif o'r ataliadau yma yn yr Uned Phoenix yn hirach na phythefnos. Gall rhai carcharorion fod yno am gyfnodau hirach ond mae'r achosion yma'n cael eu monitro gan reolwyr uwch. Pan fo raid, mae cynadleddau achos unigol yn sicrhau bod y carcharor yn dal i dderbyn ymyriadau priodol, yn cynnwys darpariaeth addysgol, tra bo'r carcharor ar Phoenix.

Yn y carchar mawr yma mae'r Uned Phoenix yn adain brysur ac yn ystod y flwyddyn mae'r staff wedi gorfod wynebu cyfnodau hirion a rheolaidd o ymddygiad anodd a heriol. **Barn y Bwrdd yw bod y staff ar yr adain yn ymdrin â'r digwyddiadau yma mewn ffordd broffesiynol iawn.**

Mae'r carchar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan ac mae safon y glendid yn dda. Mae'r adenydd yn cael eu hail beintio'n rheolaidd. Mae darnau rhagorol o waith celf ar waliau coridorau'r adain ac ar yr adennydd gan ddarparu amgylchedd lliwgar a braf.

Mae'r Uned Coed newydd wedi bod yn weithredol am fwy na dwy flynedd ac mae'n darparu llety en-suite i 387 o Garcharorion Bregus, gyda chapasiti gweithredol o 370 ar hyn o bryd. Mae'r uned wedi'i phenodi'n dda a chanddi ddarpariaeth ar wahân ar gyfer ymarfer corff, ymweliadau, gwaith, addysg, addoli a gofal iechyd. Mae'r ddarpariaeth arlwyo newydd yn y man ymweliadau yn y bloc Coed wedi cael derbyniad da.

Ar ôl ymweld â'r ceginau a monitro'r ffordd mae'r bwyd yn cael ei weini ac yn blasu gyda'r carcharorion amser pryd, mae aelodau'r bwrdd yn fodlon bod y safonau yn y brif gegin yn dda. Mae dewis o fwydlenni, mae'r prydau'n gytbwys ac mae'r dognau'n rhesymol. Mae'r carcharorion yn dewis y prydau o'r fwydlen gan ddefnyddio consol CMS yr adain. Dim ond wyth cwyn yn ymwneud â bwyd a dderbyniodd y Bwrdd eleni, ac roedd rhai o'r rhain yn ymwneud â derbyn y pryd anghywir.

Gall carcharorion archebu eitemau o siop y carchar sydd â phrisiau cystadleuol iawn o'u cymhru â'r tu allan. Gellir archebu eitemau o gatalogau cymeradwy hefyd.

Darperir celloedd wedi'u haddasu'n arbennig, i garcharorion gydag anableddau, mewn rhannau penodol o'r carchar. Mae'r Bwrdd wedi nodi, lle bo raid, bod cymhorthion i garcharorion gydag anableddau corfforol yn cael eu darparu mewn celloedd mewn rhannau eraill o'r carchar.

Mae gan bob adain gyfleuster golchi dillad lle mae carcharorion yn trefnu a goruchwyllo'r gwaith o olchi a sychu dillad. Mae'r trefniadau yma'n gweithio'n dda.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

5 MEYSYDD ERAILL

Y Gwaharddiad ar Ysmygu

Paratodd y carchar yn dda ar gyfer cyflwyno'r gwaharddiad ar ysmygu o fewn y carchar. Rhoddwyd gwybodaeth lawn i'r carcharorion am y gwaharddiad a'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael. Sefydlwyd grwpiau ffocws ar bob bloc preswyl fel bod modd trafod pryderon y carcharorion, yn arbennig effaith y gwaharddiad ar y carcharorion niferus nad oeddent eisiau rhoi'r gorau i ysmygu. Er gwaethaf y gwrthwynebu ar y cychwyn a'r achosion o wrthod cydymffurfio, mae natur gynhwysol y grwpiau ffocws wedi helpu i ddatrys y problemau. Mae rhai carcharorion wedi dweud wrth aelodau'r Bwrdd eu bod wedi elwa o roi'r gorau i ysmygu am eu bod yn gwneud mwy o ymarfer corff erbyn hyn ac yn teimlo'n fwy heini.

Ond mae'r Bwrdd yn gwybod bod tybaco ar gael o hyd yn y carchar am fod llawer achos o ganfod contraband. Mae sylweddau eraill yn cale eu defnyddio gan ysmygwyr sydd weithiau'n achosi problemau i'r ysmygwyr ac i'r staff ac, ar hyn o bryd, ni wyddir beth yw effeithiau tymor hir y sylweddau hyn.

Swyddogion

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod nifer o swyddogion profiadol wedi gadael y Parc a bod cynnydd mewn salwch ymysg y staff. Penodwyd cyfresi o recriwtiaid newydd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r staff newydd, sydd ar yr adennydd, wedi gorfod ymdrin â rhai achosion o ymddygiad aflonyddgar hir ac, o'r hyn a welwyd gennym ni, maent wedi dangos amynedd a synnwyr cyffredin da wrth ymdrin â sefyllfaoedd a allai fod wedi mynd yn draed moch.

Ymwelwyr

Mae'r Ganolfan Ymwelwyr lle mae ymwelwyr yn dod i mewn, wedi ei staffio gan bobl sy'n gweithio i Barnardo's erbyn hyn. Mae gweithgareddau a chyfleusterau chwarae i blant y tu mewn a'r tu allan i'r ganolfan.

Mae tri man ymweld yn y Parc. Prif neuadd ymweld, neuadd ymweld y bobl ifanc ar neuadd ymweliadau yn y bloc Coed. Yn y brif neuadd mae ystafell i'r teulu a man arbennig i garcharorion sydd wedi gwella. Mae mannau chwarae i blant yn y brif neuadd ac yn neuadd y Coed.

Unwaith eto eleni gall y Bwrdd adrodd bod y staff yn y man Derbyn Ymwelwyr a'r mannau Ymweld yn darparu profiad braf, croesawgar a chymhorthgar i

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

ymwelwyr. Gwelir bod darparu mannau arbennig i garcharorion sydd wedi gwella a'u teuluoedd yn llwyddo fel cymhelliant i wella ymddygiad yn y carchar.

6 GWAITH Y BWRDD

Mae 2016/17 wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Bwrdd am eu bod wedi colli pedwar aelod ac oherwydd rhai absenoldebau tymor hir drwy broblemau iechyd. Mae tri aelod newydd wedi ymuno â'r Bwrdd ac mae ymdrechion recriwtio pellach yn parhau.

Er hynny, mae'r Bwrdd wedi parhau i weithredu o ganlyniad i'r ysbryd tîm cryf sydd wedi datblygu. Mae'r Bwrdd yn parhau'n hollol ymroddedig i'w rôl ac mae'n ymdrechu i fod yn broffesiynol yn ei agwedd ac yn gynhwysol ei ethos. Mae'r Bwrdd yn cynnal ei ymrwymiad i hyfforddiant ac yn adolygu ei arferion yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gwneud ei waith yn effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn y Parc wedi ymwymo i agwedd gynhwysol tuag at amrywiaeth. Daw ein aelodau o ystod eang o gefndiroedd yn gymdeithasol ac yn ethnig. Mae arferion datblygu'r Bwrdd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o safbwyntiau ac anghenion amrywiol y boblogaeth yng Ngharchar EM y Parc.

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn y Parc yn gwneud eu dyletswyddau mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb o fewn y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn monitro er mwyn sicrhau bod y profiadau a'r rhyngweithio rhwng y staff, y carcharorion a'r ymwelwyr yn deg ac heb ragfarn

Mae'r Bwrdd yn ffodus yn y ffaith fod gan ei aelodau fynediad rhwydd at y Rheolwyr Uwch a'r Cyfarwyddwr, ac hefyd y Rheolwr a'i Ddirprwy.

Eleni, mae'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd wedi gostwng i 500 o'i gymharu â 600 y llynedd.

Er bod nifer y cwynion am eiddo sy'n ymwneud â charchar arall wedi disgyn o 41 y llynedd i 28 eleni, cafwyd nifer o achosion lle mae carcharorion sy'n cael eu trosglwyddo i'r Parc o garchar arall yn cyrraedd heb fawr eiddo neu ddim eiddo o gwbl. Y rheswm am hyn yn gyffredinol yw nad oes lle ar y cerbyd trosglwyddo ac weithiau mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo'r eiddo.

Cafwyd 72 o gwynion y llynedd yn ymwneud ag eiddo o fewn y Parc, mae hyn yn 6 mwy na'r llynedd. Roedd nifer sylweddol o'r rhain yn ymwneud ag eiddo wedi ei gollu neu ei ddwyn pan fo carcharorion yn cael eu trosglwyddo i Phoenix, yr uned arwahanu, ac felly'n methu cymryd eiddo gyda nhw. Mae'r gwaith o glirio cell yn cael ei ohirio

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

weithiau am nad yw'r adnoddau ar gael i wneud yr hyn sy'n gallu bod yn ymarfer hir, yn enwedig o ran gwirio cell sy'n cael ei rhannu. Gall y cwynwyr yma hawlio iawndal yn y pen draw ac mae hyn yn teneuo'r adnoddau ymhellach wrth i'r hawliau yma dderbyn sylw.

Er bod arferion rheoli newydd wedi eu cyflwyno i ddelio gyda phroblemau eiddo, mae'r problemau'n barhaus ac yn galw am ragor o sylw.

Mae'r Bwrdd wedi cadw'n dynn at y gofyniad bod carcharorion yn dilyn y drefn gwyno fewnol cyn gwneud cwyn i'r Bwrdd.

Wrth drafod cwynion gyda charcharorion, mae'r Bwrdd wedi dod ar draws nifer o achosion lle mae'r carcharor yn honni nad yw'n gwybod pwy yw ei swyddog personol. Mae newid staff a salwch staff yn gallu creu'r dryswch yma. Cafwyd achosion hefyd lle mae swyddogion personol wedi ceisio mynd ar ôl problemau ar ran y carcharorion ond nid ydynt wedi gallu cael ymtebion. Wrth gwrs, mae rhai carcharorion wedi colli hyder yn system y swyddog personol o ganlyniad i hyn.

Aeth aelodau'r Bwrdd i ymweld â Charchar EM Birmingham yn 2016 a chafwyd ymweliad diddorol iawn.

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

YSTADEGAU'R BWRDD	
Y Nifer o Aelodau a Argymhellir ar y Bwrdd	22
Y nifer o aelodau ar y Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	15
Y nifer o aelodau ar y Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	14
Nifer yr aelodau newydd a ymunodd o fewn y cyfnod adrodd	3
Nifer yr aelodau a ymadawodd o fewn y cyfnod adrodd	4
Cyfanswm y nifer o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm y nifer o ymweliadau â'r Sefydliad	522
Cyfanswm yr adolygiadau arwahanu a gynhaliwyd	122
Cyfanswm y nifer o adolygadiau arwahanu yr aethpwyd iddynt	122
Dyddiad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Tîm	15/11/2016

CWYNION

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

Cod	Pwnc	2014 -15	2015-16	2016-17
A	Llety	18	24	11
B	Dyfarniadau	7	7	12
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (yn cynnwys crefydd)	11	16	14
D	Addysg/Cyflogaeth/Hyfforddiant yn cynnwys Cynllun Addysg Unigol	55	43	36
E 1	Teulu/ymweliadau yn cynnwys post a ffôn	68	78	61
E 2	Cyllid/Tâl	1	21	13
F	Yn ymwneud â Bwyd/Cegin	6	6	8
G	Yn ymwneud ag iechyd	84	99	98
H 1	Eiddo (yn ystod y trosglwyddiad/mewn sefydliad arall)	49	41	28
H 2	Eiddo (o fewn y sefydliad cyfredol)	72	66	72
H 3	Y Ffreutur, Cyfleusterau, Siopa o Gatalog, Argos	9	8	4
I	Yn Berthnasol i'r Ddedfryd (amg.Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail gategoreiddio ac ati)	90	53	38
J	Pryderon Staff/Carcharorion yn cynnwys bwlio	61	65	66
K	Trosglwyddiadau	26	48	22
L	Amrywiol	32	25	17
	Cyfanswm y nifer o gwynion i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	589	600	500

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa